Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Llywodraeth Cymru
# Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Grŵp Tai Cadarn – L025

Mehefin 2017

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@wales.gsi.gov.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-9383-4
Hawlfraint y Goron 2017

# Proffil

Mae Grŵp Tai Cadarn ("y Grŵp) yn darparu cartrefi a gwasanaethau i'w denantiaid. Mae'r Grŵp yn gweithio mewn naw ardal awdurdod lleol ac mae ganddo tua 3,011 o gartrefi, gan gynnwys pum cynllun tai gwarchod.

Mae gan y Grŵp tua 92 o aelodau o staff a phrif swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Drenewydd. Sefydlwyd y Grŵp yn 1974. Mae Grŵp Tai Cadarn wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rheolau anelusennol ac mae wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae gan y Grŵp ddau is-gwmni; Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf (Newydd) a Living Quarters (Lettings and Sales) Cyf (Living Quarters). Mae Newydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rheolau elusennol ac mae wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae Living Quarters yn gwmni anghofrestredig cyfyngedig drwy gyfranddaliadau.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2014/15 Wedi'i ailddatgan** | **2015/16** | | **2015/16** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 19.8% | 29.9% | dd/g | 19.1% |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 3.9% | 13.1% | dd/g | 8.7% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 1.9% | 1.6% | dd/g | 1.6% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 68% | 68% | dd/g | 74% |
| Geriad | 52% | 55% | 75%* | 69% |
| Sicrwydd llog | 133% | 133% | 115% | 153% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Grŵp gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi.<br><br>*Mae gan un benthyciad derfyn cyfamod o 60%, sydd ar fin gael ei gynyddu i 75%. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddio – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Mehefin 2017

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Grŵp yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.